# *Datblygu Athrawon Yfory Gyda'n Gilydd: Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon CaBan*

JEREMY GRIFFITHS[1,2,3], DR SALLY BAMBER[2], GRAHAM FRENCH[1,3], DR BETHAN HULSE[2], GWYN JONES[1,3], RHYS C. JONES[1,3], SUSAN JONES[1,3], GWAWR MAELOR WILLIAMS[1,3], HAZEL WORDSWORTH[1, 3] A'R ATHRO J. CARL HUGHES[1,3]
*[1]YsgolAddysg a Datblygiad Dynol, Prifysgol Bangor; [2]Prifysgol Caer, Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Plant; [3]Y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI)*

## CRYNODEB

Yn y papur hwn rydym yn amlinellu'r athroniaeth a'r gwaith ymchwil sy'n sylfaen i ddatblygiad CaBan – Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a ddatblygwyd er mwyn addysgu athrawon yfory yng ngogledd Cymru. Mae CaBan yn 'bartneriaeth ddysgu' uchelgeisiol sy'n cynnwys pum partner – ysgolion rhanbarthol, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caer, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE), a'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI). Mae pob partner yn gwneud cyfraniad allweddol at wireddu ein huchelgais i gyfrannu at *Genhadaeth Ein Cenedl* a chyflawni ein gweledigaeth i 'Ddatblygu Athrawon Yfory Gyda'n Gilydd.' Nod sylfaenol CaBan yw cynorthwyo ein Hathrawon Cyswllt newydd i fod yn athrawon creadigol, hynod fedrus sy'n ysbrydoli, a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflwyno *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae'r papur hwn yn amlinellu: (i) ein gweledigaeth a chenhadaeth sylfaenol fel partneriaeth ddysgu; (ii) y dystiolaeth i gefnogi ein safbwynt addysgegol strategol ar gyfer datblygu athrawon yfory; (iii) cyfraniad hanfodol mentora at ddatblygiad ein Hathrawon Cyswllt fel ymarferwyr adfyfyriol beirniadol; (iv) sut rydym yn integreiddio ymchwil fel elfen hanfodol o'n

*https://doi.org/10.16922/wje.22.1.10*

holl waith; (v) sut mae dyluniad ein rhaglen yn seiliedig ar y cysyniad o ymholiad proffesiynol a dysgu proffesiynol gydol gyrfa yr unigolyn; (vi) y dulliau dysgu penodol sy'n meithrin ymdeimlad Athrawon Cyswllt o'u 'hunaniaeth addysgu'; a (vii) pwysigrwydd diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg mewn addysg, a chyfraniad partneriaeth CaBan at ddatblygu gallu er mwyn helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Geiriau allweddol**: Addysg Gychwynnol i Athrawon, partneriaeth ddysgu, mentora, ymchwil, diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg

*Datblygu Athrawon Yfory Gyda'n Gilydd:*
*Cyd-destun diwygio AGA yng Nghymru*

Yn dilyn perfformiad siomedig yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2009 (OECD, 2010), dechreuodd Cymru gyflwyno diwygiadau addysgol sylfaenol. Roedd y diwygiadau hyn yn seiliedig ar weledigaeth i greu system addysg gyda'r gorau yn y byd ar gyfer pob dinesydd, lle y byddai cyfle cyfartal i wireddu potensial yn cryfhau gallu unigolion a chymunedau i gyfrannu at dwf economaidd a chydlyniant cymdeithasol. Yn 2013, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) gwblhau adolygiad cenedlaethol o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan arwain at adroddiad cynhwysfawr – *Gwella Ysgolion yng Nghymru: Persbectif OECD* (OECD, 2014). Nododd adroddiad yr OECD fod angen datblygu 'cyfalaf proffesiynol' (Hargreaves a Fullan, 2012) er mwyn ceisio codi statws a phroffesiynoldeb y proffesiwn addysgu. Roedd yn argymell diwygio a gwella rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ac yn awgrymu bod angen gwella arweinyddiaeth ledled y system yn genedlaethol a chryfhau partneriaethau ag ysgolion sy'n perfformio'n dda. Roedd angen i AGA fod yn fwy cyson â newidiadau polisi, ac i'r perwyl hwn, roedd arweinwyr mewn sefydliadau addysg athrawon yn cydnabod yr angen i weithio'n agosach ac yn fwy cydweithredol ar draws pob haen o'r system addysg yng Nghymru.

Yn 2012 – cyn cyhoeddi adroddiadau'r OECD, ond yn gyson â mabwysiadu gweledigaeth ar gyfer system addysg gyda'r gorau yn y byd i Gymru – penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yng Nghymru gynnal adolygiad o AGA yng Nghymru. Cwblhawyd yr adolygiad hwn gan Tabberer



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 210 20/05/2020 10:54

(2013), ac roedd yn argymell penodi Cynghorydd AGA i Gymru. Ym mis Mawrth 2014 penodwyd yr Athro John Furlong o Brifysgol Oxford i'r swydd. Yn ystod y blynyddoedd ers ei benodi, mae gweledigaeth glir wedi'i datblygu, a'i gwireddu yn fwy diweddar, ynglŷn â'r hyn sydd ei angen ym maes addysg athrawon. Amlinellwyd y gofynion yn y ddogfen *Addysgu Athrawon Yfory* (Furlong, 2015) ac yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru a'i dilynodd, *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2018).


Ar y pryd, roedd AGA yn y Gogledd a'r Canolbarth yn cael ei darparu trwy bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth, a oedd yn gweithredu fel Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru. Roedd dwy Ganolfan arall yn gweithredu yn y De-orllewin (Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru) a'r De-ddwyrain (Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon – SEWCTET). Yn dilyn cyfres o arolygiadau gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn 2012, 2013, 2015) mynegwyd pryderon ynglŷn â chyflwr presennol AGA. Ar ôl hynny, newidiwyd y ffocws tuag at broses achredu genedlaethol newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth o arferion da rhyngwladol.

Mewn ymateb i'r datblygiadau strategol hyn, sefydlwyd partneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer i gydweithio â rhanddeiliaid er mwyn datblygu AGA o ansawdd uchel, gan ddwyn ynghyd cryfderau cymharol y ddau sefydliad i ddarparu partneriaeth ystyrlon a chadarn i wasanaethu anghenion gwahanol rhanbarth y Gogledd. Mae'r bartneriaeth newydd, *CaBan*, yn manteisio ar ragoriaeth ledled y rhanbarth, ac mae'n cynnwys pum partner cryf: nifer o ysgolion Arweiniol a Rhwydwaith; Prifysgol Bangor; Prifysgol Caer; consortiwm rhanbarthol GwE; a'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) (gweler Ffigur 1). Mae pob partner yn cyflawni swyddogaeth allweddol ac mae'n awyddus iawn i wireddu'r weledigaeth o wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc ledled y Gogledd. Mae'r enw *CaBan* yn cwmpasu sawl ystyr sy'n cyfeirio at ddatblygu partneriaeth strategol rhwng dau Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a gweledigaeth ac amcan cyffredinol y bartneriaeth. Yn yr iaith Saesneg, mae *CaBan* yn creu ffug acronym sy'n cynrychioli'r cydweithio hirdymor rhwng y ddau sefydliad i ddarparu addysg athrawon yn y Gogledd, sydd wedi bod ar waith ers 150 o flynyddoedd (***Ca***er a ***Ban***gor). Yn yr iaith Gymraeg, mae *CaBan* yn dynodi gorffennol hanesyddol Cymru ddiwydiannol, pan oedd chwarelwyr a mwynwyr yn arfer ymgasglu yn y 'CaBan' i rannu, trafod, a chymryd



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 211 20/05/2020 10:54

**Ffigur 1: Fframwaith Partneriaeth CaBan**




rhan mewn trafodaeth ehangach – arferion sy'n ganolog i genhadaeth CaBan.

### *Datblygu Athrawon Yfory Gyda'n Gilydd: Gweledigaeth CaBan ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon*

Mae gweledigaeth CaBan yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o'r ffaith nad yw sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol yn gwbl ddamcaniaethol nac yn gwbl ymarferol, ond yn gyfuniad o'r ddau (BERA/RSA, 2015). Mae gwaith ymchwil yn dangos bod athrawon dan hyfforddiant yn ei chael yn anodd yn aml cysylltu dysgu 'damcaniaethol' a dysgu 'ymarferol' wrth symud rhwng yr ysgol a'r brifysgol (Hobson *et al.*, 2008; Raffo a Hall, 2006).

O safbwynt cysyniad, mae model AGA CaBan yn gysylltiedig ag ymarfer clinigol seiliedig ar ymchwil (Burn a Mutton, 2015). Mae'r model hwn, sydd â chysylltiadau amlwg ag addysg feddygol, yn canolbwyntio ar addysg oedolion ac mae'n ceisio helpu i ddatblygu gwybodaeth broffesiynol mewn cymunedau ymarfer. Mae Burn a Mutton (2015), mewn



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 212 20/05/2020 10:54

adolygiad o raglenni AGA, yn egluro sut mae modelau ymarfer clinigol o AGA yn dwyn ynghyd 'doethineb ymarferol arbenigwyr' a thystiolaeth o waith ymchwil. Maent yn rhagweld perthynas rhwng ysgolion a phrifysgolion sy'n cryfhau'r cysylltiad rhwng mathau gwahanol o wybodaeth sy'n cael eu creu a'u dilysu yng nghyd-destunau gwahanol yr ysgol a'r brifysgol (Burn a Mutton, 2015: 217). Disgwylir i'r rhaglenni AGA newydd yng Nghymru ddefnyddio'r wybodaeth broffesiynol orau o ysgolion a phrifysgolion er mwyn datblygu athrawon effeithiol (EWC, 2019; Whitty a Furlong, 2017).

Fodd bynnag, mae rhai peryglon yn deillio o'r model ymarfer clinigol hwn ym maes addysg, sy'n gofyn am newid diwylliannol mewn ysgolion a phrifysgolion. Ni fydd ysgolion yn derbyn yn oddefol myfyrwyr ar gyfer cyfnodau ymarfer addysgu bellach, ond byddant yn bartneriaid cyfartal ac yn rhan annatod o'r broses ddysgu ar gyfer datblygu Athrawon Cyswllt. Os nad yw ysgolion a mentoriaid dosbarth yn newid eu meddylfryd, gall Athrawon Cyswllt deimlo nad ydynt yn derbyn cymorth ac nad oes ganddynt gyfeiriad clir. Hefyd, bydd angen i staff Prifysgolion ddeall eu rôl yn y gwaith o gefnogi ysgolion, gan nodi bod toreth o arbenigedd ar gael yn yr ystafell ddosbarth i helpu Athrawon Cyswllt i ddatblygu eu sgiliau. Yn aml, mae newid sylweddol mewn ymagwedd o fewn unrhyw systemau yn arwain at ostyngiad mewn perfformiad. Yn ystod y camau datblygu cychwynnol, mae angen i ysgolion a phrifysgolion fod yn ymwybodol iawn o'r 'gromlin newid' hon (Kubler-Ross, 1977), ac mae angen canolbwyntio'n glir ar fonitro a sicrhau ansawdd gydol siwrne'r Athrawon Cyswllt unigol.

Mae'r broses o ddylunio rhaglen CaBan yn seiliedig ar y cysyniad o *ymholiad proffesiynol*[1] sy'n disgrifio gweledigaeth athrawon yfory fel athrawon sy'n 'ysgolheigion addysgeg' ac sy'n ymwneud yn gyson â thystiolaeth ymchwil (Furlong, 2015), tystiolaeth seiliedig ar ymarfer, dysgu proffesiynol seiliedig ar ymholiad (Darling-Hammond, 2017; Cordingley, 2015) ac ymholiad ymarferwyr ystafell ddosbarth (Cochran-Smith a Lytle, 2009; Campbell a Groundwater Smith, 2009). Fel Furlong (2015), credwn mai trwy ofyn cwestiynau, nodi problemau wrth ymarfer a chydweithio i ganfod atebion y bydd Athrawon Cyswllt yn dod yn 'weithwyr proffesiynol gweithredol sy'n gallu arddel eu barn eu hunain ac ysgwyddo cyfrifoldeb fel arweinwyr dysgu' (Furlong, 2015: 12). Mae ein gweledigaeth yn cwmpasu safbwynt eang o ran dysgu proffesiynol, sy'n ceisio sicrhau dealltwriaeth o addysgu fel gweithgaredd moesegol a deallusol yn hytrach na set o sgiliau technegol i'w meistroli (Ponte, 2009). O ganlyniad, mae'n rhaid i Athrawon Cyswllt ddatblygu dealltwriaeth athronyddol



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 213 20/05/2020 10:54

ddyfnach o sut mae newid yn cael ei weithredu yn eu hymarfer eu hunain trwy archwilio a chwestiynu eu hymarfer mewn ffordd systematig (Hulse a Hulme, 2012). Mae'r wybodaeth sy'n deillio o ymholi manwl yn yr ystafell ddosbarth yn helpu Athrawon Cyswllt i droi ymchwil yn ymarfer a mabwysiadu dull gweithredu sy'n datrys problemau (Burn a Mutton, 2015; Darling-Hammond, 2017). Trwy'r broses ymholi, bydd yr Athrawon Cyswllt yn gallu 'interpret and make sense of the specific needs of particular students, to formulate and implement particular pedagogical actions and to evaluate the outcomes – angen ei gyfieithu plîs os nad yw ar gael yn barod yn y Gymraeg' (t. 218).

Mae Athrawon Cyswllt yn dysgu sut i astudio eu hymarfer eu hunain trwy ddulliau addysgegol amrywiol sy'n addas i oedolion sy'n dysgu. Mae rhaglenni CaBan yn hyrwyddo dull cwestiynu sy'n sicrhau bod Athrawon Cyswllt yn derbyn cymorth gan eu mentoriaid a'u tiwtoriaid i gwestiynu arferion presennol ac arbrofi gydag arferion newydd. Mae hyn yn gallu bod yn heriol i athrawon dan hyfforddiant yn aml (Livingston a Shiach, 2009), gan nad oes un patrwm penodedig ar gyfer addysgu rhagorol, ac mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu hymarfer trwy broses ymholi barhaus. Mae'r 'anghysur' sy'n gallu deillio o hyn yn elfen allweddol o ymarfer creadigol (Claxton, 2008) a bydd angen darparu cymorth i oresgyn hyn. Mae datblygu 'hunaniaeth addysgu', sef hunaniaeth broffesiynol weithredol, yn hollbwysig, a chaiff ei meithrin trwy strategaethau dysgu metawybyddol. Bydd y rhaglenni yn ystyried credoau, agweddau a gwerthoedd cychwynnol yr Athro Cyswllt, a'r rhai sy'n datblygu, yn ymwneud ag addysgu a dysgu, a natur unigolyddol a hynod twf proffesiynol (Clarke a Hollingsworth, 2002).

Er mwyn hwyluso hyn, mae holl raglenni CaBan yn darparu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i drafod yn fanwl â mentoriaid, cydweithwyr a chymheiriaid (gweler yr adran isod ar Fentora am ragor o fanylion). Ein prif fodelau dysgu proffesiynol yw *cylchoedd addysgu o ansawdd* (Bowe a Gore, 2011), *astudio gwersi* (Lewis, 2000) ac *ymholiad proffesiynol* (Cochran-Smith a Lytle, 2009; Campbell a Groundwater Smith, 2009). Dangoswyd bod y tri ohonynt wedi hyrwyddo a datblygu cydweithredu mewn cymunedau dysgu proffesiynol. Er enghraifft, nodwyd bod cylchoedd addysgu yn ddull effeithiol o ddysgu proffesiynol (Gore *et al.*, 2015), gan alluogi athrawon newydd i arsylwi ar ymarfer arbenigol mewn ffordd feirniadol ar sail tystiolaeth fel y craidd hyfforddi (City *et al.,* 2009) a datblygu eu hymwybyddiaeth o'u hunaniaeth sy'n esblygu fel athrawon (Mockler, 2011). Ein hamcan yw sicrhau bod yr hunaniaeth hon yn cael ei



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 214 20/05/2020 10:54

phroffesiynoli ymhellach trwy astudio gwersi (Cajkler *et al*., 2013), lle mae mentoriaid ac Athrawon Cyswllt yn cynllunio ar y cyd i ddylunio gwersi sy'n seiliedig ar ymchwil ac yn gwella'r sgil o groesholi ymatebion dysgwyr i'r modelau a ddefnyddiwyd. Mae'r broses o addasu'r model ar gyfer AGA yn awgrymu bod astudio gwersi yn adnodd effeithiol ar gyfer datblygu mentoriaid, yn ogystal â chynorthwyo Athrawon Cyswllt i ddysgu sut i addysgu mewn ffordd ymatebol (Cajkler *et al*., 2013). Wrth reswm, nid yw dysgu sut i addysgu yn dod i ben ar ôl AGA (Berliner, 2004; Darling-Hammond, 2017: Llywodraeth Cymru, 2019); mae angen i athrawon barhau i weithredu mewn cymunedau dysgu proffesiynol seiliedig ar ymchwil, gwybod am ddatblygiadau newydd ac ymateb iddynt, a datblygu arferion addysgeg newydd.


Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o bedwar llyfryn i gefnogi'r *Fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg* (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae'r pedair elfen sy'n cael eu cynnwys ym mhob llyfryn yn disgrifio'r Model Dysgu Proffesiynol (PLM) ac yn cynnwys: cydweithredu effeithiol; ymarfer adfyfyriol; defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil, a hyfforddi a mentora. Mae'r egwyddorion hyn yn ganolog i'r rhaglenni AGA diwygiedig a'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NAPL) diwygiedig sydd wedi'i ailenwi (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r NAPL wedi'i ddatblygu trwy fewnbwn ac adborth gan ymarferwyr Ysgolion Arloesi, sydd wedi gweithio gyda'r Llywodraeth i lunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar y cyd. Hefyd, mae'n cynnwys gwaith yr OECD, gan ddatblygu'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar gyfer Cymru (Kools, 2018). Mae dysgu seiliedig ar ymholi yn ganolog i lwyddiant y tri maes hyn, sef NAPL, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, a diwygio AGA. Gall sgiliau ymholi proffesiynol helpu athrawon i ddeall pa elfennau o fentrau, hyfforddiant neu ddatblygiadau newydd sy'n cefnogi addysgu a dysgu effeithiol yn eu cyd-destun. Mae'r broses o ddatblygu sgiliau o'r fath yn ystod AGA yn cefnogi addysg disgyblion a dysgu proffesiynol athrawon gydol eu gyrfaoedd. Hefyd, mae llawer o gyfleoedd ymchwil ar gael wrth ddatblygu tystiolaeth am sut mae hyn yn gweithio yng nghyd-destun y model CaBan, ac yng nghyd-destun unigryw ysgolion a chymunedau yng ngogledd Cymru.

Mae dyluniad y rhaglen hon yn newid y pwyslais o fodel addysg athrawon perfformiadol i ddysgu proffesiynol cydweithredol, parhaus. Mae rhai peryglon yn deillio o'r newid hwn. Mae llawer o'r dystiolaeth ryngwladol o fodelau addysg athrawon llwyddiannus yn nodi gwahaniaethau strwythurol, diwylliannol a chyd-destunol sydd angen eu cydnabod yng



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 215 20/05/2020 10:54

**Ffigur 2: Dylunio'r Cwrs**




nghyd-destun Cymru. Er enghraifft, yn wahanol i wledydd fel y Ffindir, nid yw gwybodaeth broffesiynol seiliedig ar ymchwil wedi bod yn rhan mor bwysig o ddysgu proffesiynol athrawon yn y Deyrnas Unedig. Mae amser i ddatblygu cymunedau ymholgar parhaus yn gyfyngedig mewn ysgolion lle mae amser cyswllt rhwng athrawon a disgyblion ymysg yr uchaf yn y gwledydd datblygedig. O ganlyniad, mae angen neilltuo unrhyw amser sydd ar gael ar gyfer dylunio gwersi ar y cyd a gwaith ymholi gan athrawon yn y ffordd fwyaf deallus bosibl. Mae rhaglen CaBan wedi ceisio gwneud hyn trwy ddefnyddio modelau dysgu proffesiynol fel astudio gwersi ac ymchwilio yn yr ystafell ddosbarth sy'n gwella profiad dysgu Athrawon Cyswllt, athrawon a phobl ifanc.



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 216 20/05/2020 10:54

## *Dyluniad Cwrs CaBan*

Mae rhaglenni CaBan yn deillio o gydweithredu agos rhwng rhanddeiliaid CaBan amrywiol. O dan arweiniad darlithwyr (tiwtoriaid) o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Caer, mentoriaid ac athrawon (o ysgolion Arweiniol ac ysgolion Rhwydwaith) a chynghorwyr GwE, aethom ati i ddylunio cyfres o raglenni strwythuredig a chadarn sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi ac adfyfyrio ar addysgu a dysgu, gan gysylltu damcaniaeth, tystiolaeth, ymarfer ac adfyfyrio. Mae Ffigur 2 yn crynhoi'r broses hon ar gyfer modiwl pob cwrs.

Mae'r broses hon o lunio ar y cyd wedi sicrhau bod ein rhaglenni yn cyfrannu at yr amcan ehangach o ddatblygu cyfalaf proffesiynol (Hargreaves a Fullan, 2012) a diwylliant o gyfrifoldeb ar y cyd er mwyn gwella dysgu pob Athro Cyswllt. O ganlyniad i'r broses hon, mae pob un o bartneriaid CaBan yn gyd-berchnogion y rhaglen.

## *Modiwlau a Meysydd Astudiaeth*

Mae arferion ein Hathrawon Cyswllt yn seiliedig ar dystiolaeth a damcaniaeth, sy'n helpu i feithrin ymarferwyr gwerthusol ac adfyfyriol sy'n deall natur gymhleth addysgu (Shulman a Wilson, 2005). Mae ein cyrsiau yn pwysleisio pwysigrwydd datblygiad plant, damcaniaethau dysgu, perthynas gadarnhaol â dysgwyr, a chreu amgylcheddau 'ysgol gyfan' sy'n meithrin disgyblion (Biglan *et al.*, 2012; Biglan, 2018). O ganlyniad, mae Athrawon Cyswllt yn cael 'cyfleoedd fel rhan o'r drefn i gyplysu'r profiad ymarferol y maen nhw'n ei ddatblygu yn yr ysgol â mathau eraill o wybodaeth broffesiynol – sef ag ymchwil, â theori ac â gwybodaeth o ymarfer mewn cyd-destunau eraill' (Furlong, 2015: 17).

Mae Athrawon Cyswllt yn cael eu cyflwyno i waith ymchwil ym maes eu harbenigedd pwnc er mwyn llywio eu gwybodaeth am gynnwys addysgegol. (BERA/ RSA, 2014). Mae arbenigedd addysgegol pwnc yn cael ei ddatblygu trwy addysgu Athrawon Cyswllt am fodelau dysgu seiliedig ar ymchwil, sy'n cael eu rhoi ar waith wedyn ac yn galluogi athrawon i gyflwyno cynnwys y pwnc mewn ffordd y gellir ei dysgu. Mae datblygiad gwybodaeth am gynnwys addysgegol Athrawon Cyswllt yn cael ei fodelu fel elfen barhaus o ddysgu proffesiynol gydol eu gyrfaoedd (Shulman, 1986). Bydd hyn yn golygu bod Athrawon Cyswllt yn gallu arddangos 'dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 217 20/05/2020 10:54

ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd' (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae'r ddealltwriaeth fanwl hon o egwyddorion addysgegol yn darparu sylfaen gadarn i Athrawon Cyswllt fel y gallant weithredu mewn ffordd arloesol a chreu dulliau newydd o addysgu a dysgu.

Rydym wedi cysylltu'r holl aseiniadau a'r broses o arsylwi ac adfyfyrio yn yr ysgol â modelau sefydledig o ymchwilio gan athrawon ac ysgolion. Mae Athrawon Cyswllt yn cadw cyfnodolyn proffesiynol er mwyn arsylwi ar ymarfer a dadansoddi eu haddysgu eu hunain ac addysgu eraill trwy ddefnyddio'r *craidd hyfforddi* (City *et al*., 2009), a'r pedwarawd gwybodaeth (Turner a Rowland, 2011). Hefyd, byddant yn cael eu hannog i werthuso addysgu trwy ddadansoddi deilliannau dysgwyr gan ddefnyddio Cwestiynau Ebbut (Hopkins, 2014) gan sicrhau mai datblygiad myfyrwyr yw'r sylfaen ar gyfer asesu ansawdd athrawon (Coe *et al*., 2014: 2). Mae'r cyfuniad hwn o ddefnyddio'r cyfnodolyn bob dydd a'r aseiniadau mwy ffurfiol yn ceisio pontio damcaniaeth ac ymarfer a datblygu athrawon sy'n dod yn weithwyr proffesiynol sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth.

### *Y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*

Yn ogystal ag asesu Athrawon Cyswllt trwy ddefnyddio dulliau Addysg Uwch ffurfiol, mae'n ofynnol i'r broses achredu AGA asesu eu datblygiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL). Wrth ddylunio ein hadnoddau asesu, rydym wedi gorfod sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio PSTL fel adnodd atebolrwydd a'u swyddogaeth ffurfiannol yn fframio'r ddeialog rhwng Athrawon Cyswllt, mentoriaid a thiwtoriaid.

Gan adeiladu ar *Safonau ar gyfer SAC: rhagor o gyngor ar gyfer Darparwyr AGA* (Llywodraeth Cymru, 2018) rydym wedi nodi agweddau ar ymarfer y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn elfennau unigol o'r bum safon sydd hefyd yn cefnogi'r dystiolaeth a gyflwynir gan Athrawon Cyswllt ar gyfer y *Pasbort Dysgu Proffesiynol* a'u deialog broffesiynol â thiwtoriaid a mentoriaid. Mae'r prif ffynonellau tystiolaeth a gyflwynir i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn cynnwys: adroddiadau arsylwi gan diwtoriaid a mentoriaid; recordiadau sain o ddysgwyr; darnau o gyfnodolion proffesiynol; proffiliau disgyblion a/neu astudiaethau achos; enghreifftiau o gasglu lleisiau disgyblion (e.e. cyfweliadau a holiaduron); cynlluniau a gwerthusiadau gwersi; arsylwi ar fentoriaid a chyd-gynllunio â nhw; nodiadau

gweithdai; adnoddau ystafell ddosbarth gwreiddiol ac wedi'u haddasu; enghreifftiau o waith disgyblion; ac aseiniadau ffurfiol.

Hefyd, mae'n bwysig nodi ein bod yn graddio cynnydd Athrawon Cyswllt gan ddefnyddio PSTL fel adnodd asesu ffurfiannol er mwyn cynorthwyo eu cynnydd. Er gwaethaf tystiolaeth bod modd graddio gwersi yn gyson mewn rhai amgylchiadau (Muijs *et al.*, 2018), mae Coe *et al.* (2014: 4) yn nodi bod hyn ond yn effeithiol wrth gronni canlyniadau arsylwadau gwersi lluosog gan arsylwyr lluosog. Felly, fel rhan o'n rhaglenni rydym yn graddio unwaith fesul lleoliad ysgol, ac mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys cynnydd y dysgwr dros amser, ansawdd cyffredinol yr addysgu a arsylwyd mewn nifer o wersi (yn ffurfiol ac yn anffurfiol), ac ansawdd rhyngweithio proffesiynol Athrawon Cyswllt yn yr ysgol ac mewn aseiniadau academaidd.

Rydym wedi teilwra'r asesiadau (y Pasbort Dysgu Proffesiynol a'r aseiniadau ffurfiol) i fodloni'r safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) newydd, gan sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei darparu ar gyfer pob elfen. Fodd bynnag, rydym yn osgoi paru pwyntiau asesu unigol â safonau gan fod unrhyw asesiad neu eitem o dystiolaeth unigol yn debygol o fod yn berthnasol i nifer o elfennau, a byddwn yn cydymffurfio â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen ymgynghori PSTL. Mae Athrawon Cyswllt yn defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i greu darlun dros amser sy'n llywio eu safbwynt, gan roi'r pwyslais ar y broses yn hytrach na'r cynnyrch, a meithrin ymarferwyr adfyfyriol sy'n ystyried addysgu yn gyfanwaith cydlynus. Felly, bydd hyn yn sicrhau bod y PSTL yn cael eu defnyddio mewn ffordd ffurfiannol ac yn rhoi sicrwydd bod ein Hathrawon Cyswllt wedi bodloni neu ragori ar safonau SAC.

### *Rhaglen Datblygu Mentoriaid CaBan*

Un elfen allweddol o'r diwygiadau addysg yng Nghymru yw pwysigrwydd cynyddol mentora yn natblygiad proffesiynol athrawon o bob math, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i'r maes addysgu (Furlong, 2015). Yn ôl Estyn (2018), er bod enghreifftiau o arferion mentora effeithiol ledled Cymru, mae'r maes hwn yn anghyson o hyd ac mae angen i'r system ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion a darparwyr AGA, ddatblygu'r maes hwn er mwyn meithrin ymarferwyr effeithiol sy'n ymgymryd â dysgu proffesiynol gydol gyrfa. Yn ystod y broses o ddatblygu partneriaeth CaBan, ac wrth gydnabod bod angen i'n rhaglen fentora fod yn wahanol yn ansoddol i ddulliau

mentora traddodiadol, aethom ati i sefydlu'r Grŵp Datblygu Mentoriaid sy'n cynnwys unigolion allweddol o'r sectorau cynradd ac uwchradd, y ddau SAU a GwE. Mae CaBan wedi ymrwymo i sicrhau bod Athrawon Cyswllt yn derbyn cymorth mentora o ansawdd uchel ac y byddant yn mynd i mewn i ysgolion sydd wedi sefydlu arferion mentora a'u hystyried yn bwysig fel gweithgaredd dysgu proffesiynol. Dewiswyd aelodau'r Grŵp Datblygu Mentoriaid ar sail eu profiad a'u harbenigedd mentora. Cylch gorchwyl y grŵp oedd diffinio ystyr mentora, a chysyniadu o'r newydd rôl mentoriaid yn rhaglen CaBan, ac, yn benodol, sut mae'r mentoriaid yn cydweithredu ac yn gweithio ledled y bartneriaeth a'r rhanbarth mewn ffordd strategol a chyson. Fe aeth y grŵp ati i lunio'r rhaglen datblygu mentoriaid sy'n diffinio ystyr mentora a goblygiadau hynny ar gyfer ein hysgolion a'n Hathrawon Cyswllt. Aethom ati i wneud hyn trwy broses iteraidd o ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr, gan gyfuno syniadau rhyngwladol presennol yn ymwneud ag arferion gorau (e.e. Estyn, 2018; Furlong, 2015). Hefyd, buom yn gweithio'n agos gyda'r panel achredu yn ystod y broses achredu er mwyn llunio ein rhaglen a darparu cymorth mentora rhagorol ledled ein partneriaeth.

Mae model CaBan yn cynnwys diffiniad clir o fentora effeithiol fel proses ddwy ffordd sy'n datblygu dull adfyfyrio o ddysgu trwy brosesau allweddol cydweithredu, deialog, arsylwi, adfyfyrio beirniadol ac ymchwilio. Mae mentoriaid yn hyddysg mewn modelau adborth seiliedig ar ddeialog sy'n galluogi Athrawon Cyswllt i ddysgu trwy adfyfyrio ar eu haddysgu eu hunain (Jones *et al*., 2018) ac yn galluogi mentoriaid i ddeall canfyddiadau Athrawon Cyswllt er mwyn eu cefnogi'n well (Burn *et al*., 2000: 226). Hefyd, mae'r weledigaeth hon ar gyfer profiad mentora rhagorol sydd wedi'i mabwysiadau gan CaBan yn gyson ag agwedd addysgegol CaBan at ddysgu Athrawon Cyswllt, ac yn gatalydd ar gyfer uno damcaniaeth ac ymarfer.

Mae'r term mentora yn disgrifio 'the support given by one (usually more experienced) person for the growth and learning of another, and for their integration into and acceptance by a specific community' cyfieithu os nad yw ar gael yn Gymraeg plîs (Malderez, 200: 57). Mae'r unigolyn mwy profiadol hwn yn mynd ati i 'facilitate the development of the AT as s/he grows from novice to full practitioner, nurturing and challenging through a full range of responsibilities, thus linking theory to practice. The mentoring role is developmental and only by engaging in it can it be learned. Just as the mentor nurtures the AT, the mentor should be nurtured and supported' (Punter, 2007).



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 220 20/05/2020 10:54

Mae *ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith* CaBan yn mabwysiadu dull ysgol gyfan o fentora. Credwn yn gryf y bydd mentoriaid CaBan yn gatalydd ar gyfer newid o safbwynt yr angen i sefydlu diwylliant o ddysgu proffesiynol mewn ysgolion, integreiddio AGA mewn ysgolion a datblygu Athrawon Cyswllt i fod yn athrawon y dyfodol gyda'r gorau yn y byd. Hefyd, rydym yn ystyried Athrawon Cyswllt fel 'arweinwyr yfory' a'r hyn y gall hyn ei olygu wrth iddynt ymuno â'r proffesiwn ar adeg o ddiwygiadau uchelgeisiol ac optimistiaeth. Mae cymorth strategol gan uwch arweinwyr yn hollbwysig i fentora effeithiol o safbwynt: (i) cydnabod pwysigrwydd dysgu proffesiynol; (ii) effaith gadarnhaol mentoriaid cryf ar ddiwylliant ysgolion, ymarfer addysgu, profiadau a deilliannau dysgwyr; a (iii) twf potensial arweinyddiaeth ar bob lefel o'r ysgol a'r system addysg. Fel sy'n wir am newidiadau eraill ar lefel system, dylid ystyried mentora llwyddiannus fel dull ysgol gyfan sy'n cynnwys mewnbwn a chymorth arweinyddiaeth strategol. Gan fod GwE yn un o bartneriaid strategol CaBan, rydym wedi gweithio'n galed i gysylltu'r hyfforddiant ar gyfer mentoriaid ag ymweliadau cynghorwyr her a chymorth GwE ag ysgolion bob tymor. Hefyd, mae hyn yn darparu cymorth di-dor ar gyfer Athrawon Cyswllt yn eu blwyddyn gyntaf o addysgu fel Athrawon Newydd Gymhwyso. Yn ogystal â chymorth arweinyddiaeth ar gyfer mentora, mae holl aelodau cymuned yr ysgol rhwydwaith wedi ymrwymo i sicrhau profiad cadarnhaol ar gyfer Athrawon Cyswllt.

Ym mhartneriaeth CaBan, mae mentoriaid ysgol wedi'u nodi'n strategol a'u penodi gan uwch arweinwyr ysgol yn dilyn proses ddethol a ddangosai'r priodweddau, y sgiliau a'r disgwyliadau a amlinellwyd yn *Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Mentoriaid CaBan*. Trwy ddefnyddio llenyddiaeth bresennol, mae nifer o swyddogaethau a sgiliau mentoriaid craidd wedi'u nodi (Furlong 2009; Llywodraeth Cymru, 2014; Estyn, 2018) sy'n canolbwyntio ar gynnydd yr Athro Cyswllt yn hytrach nag elfennau gweinyddol y rôl. Mae gweledigaeth CaBan ar gyfer mentoriaid wedi'i chwmpasu yn y swyddogaethau craidd ar gyfer mentoriaid, sy'n gyson â'r PSTL. Mae'n cydnabod swyddogaeth luosog mentoriaid fel ymarferwyr adfyfyriol, cefnogwyr, addysgwyr athrawon, esiamplau, ymddiwylliwyr, aseswyr, cydweithredwyr, eiriolwyr, ymchwilwyr ac arweinwyr.

Fel rhan o fodel CaBan, aethom ati i ddiffinio tri math o fentoriaid gwahanol: *Mentor Arweiniol y Rhwydwaith*, sy'n gyfrifol am fentora ledled y rhwydwaith ysgolion; *y Prif Fentor*, sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth fentora yn ysgol y rhwydwaith; a'r *Mentor Dosbarth/Pwnc*, sy'n gyfrifol am fentora sy'n berthnasol i'r maes addysgu neu'r dosbarth. Y mentor dosbarth/pwnc



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 221 20/05/2020 10:54

a fydd yn derbyn y lefel uchaf o gymorth yn ein rhaglen cymorth mentora, gan fod y gwaith ymchwil wedi nodi bod y mentoriaid hyn yn hollbwysig i'r broses o ddatblygu Athrawon Cyswllt a sicrhau profiad personol (Estyn, 2018). Hefyd, mae'r grŵp datblygu mentoriaid wedi creu 'Llwybr Datblygu Mentoriaid' sy'n amlinellu'n glir y llwybr y bydd mentor dosbarth/pwnc yn ei ddilyn i ddod yn brif fentor a/neu'n fentor arweiniol y rhwydwaith, lle mae mentoriaid yn gallu ennill credydau ar lefel Meistr ar gyfer eu gwaith datblygiad proffesiynol. Hefyd, mae cyfle ar gael i diwtoriaid a mentoriaid prifysgol ymgymryd â gwaith ymchwil yn ymwneud â'r gwaith mentora sy'n cael ei wneud ledled partneriaeth CaBan. Mae'r holl raglen cymorth i fentoriaid yn seiliedig ar brosesau cadarn i sicrhau a gwella ansawdd â'r nod o gefnogi'r ddarpariaeth fentora, ynghyd â fframwaith ac amserlen ar gyfer y flwyddyn academaidd sy'n dangos cerrig milltir datblygiad clir. Mae'r Athro Cyswllt a'r mentor dosbarth/pwnc yn ganolog i'r broses hon, ac mae'r berthynas hon yn llywio ac yn mewnbynnu'n gyson i'r rhaglen datblygu mentoriaid gydol y flwyddyn academaidd.

### *Diwylliant Cymru a'r Iaith Gymraeg*

Bydd athrawon yn gwneud cyfraniad allweddol at helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae athrawon yn gwneud gwaith hanfodol yn meithrin gwerthfawrogiad o ddiwylliant amrywiol Cymru, yn datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r iaith Gymraeg, yr iaith Saesneg ac ieithoedd eraill, ac yn cyfleu'r neges fod Cymru yn wlad â 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae datblygu gallu Athrawon Cyswllt i siarad Cymraeg ar lefelau gwahanol yn elfen bwysig o helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015). Elfen allweddol o'r gwaith fydd datblygu gwerthfawrogiad Athrawon Cyswllt o'u gwaith yn meithrin dysgwyr sy'n cydnabod y berthynas rhwng diwylliant ac iaith a sut mae hynny'n diffinio eu hiaith eu hunain, a'u safle a'u llais unigryw mewn cymdeithas (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn ddiau, un o elfennau craidd y proffesiwn addysgu yng Nghymru yw nodi a darparu ar gyfer natur ieithyddol amrywiol y gweithlu addysg, ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion, yn ogystal â deall eu bywydau bob dydd mewn cymunedau uniaith, dwyieithog ac amlieithog.

Mae angen mewnbynnau ieithyddol gwahanol gan addysgwyr ar yr holl ddisgyblion mewn ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu fel unigolion



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 222 20/05/2020 10:54

hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith. Mae ystod ieithyddol amrywiol yn bodoli mewn ysgolion partneriaeth CaBan, sy'n adlewyrchu categorïau ieithyddol ysgolion yn ôl diffiniad presennol Llywodraeth Cymru, a hanesion ieithyddol amrywiol plant y rhanbarth, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae hyn yn darparu platfform hyfforddi rhagorol i baru proffiliau iaith Athrawon Cyswllt, fel y gallant ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg, waeth beth fo lefel eu datblygiad iaith ar hyn o bryd, mewn ysgol bartneriaeth.

Er mwyn creu amgylcheddau dysgu llwyddiannus, lle mae pob disgybl yn gwerthfawrogi pob cam o'i ddatblygiad ieithyddol, mae cyrsiau craidd CaBan yn sicrhau bod Athrawon Cyswllt yn dangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth eang o ddeilliannau sy'n cael eu caffael gan ddysgwyr trwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg. Trwy gael profiad o ddamcaniaeth ac ymarfer mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg, mae Athrawon Cyswllt yn datblygu eu sgiliau iaith personol, ac yn dysgu mwy am sut mae plant yn dysgu iaith. Byddant yn wynebu nodweddion gwahanol a thebyg wrth ddysgu iaith fel oedolyn o'i gymharu â dysgu iaith fel plentyn. Mae hyn yn darparu gwybodaeth bwysig i Athrawon Cyswllt er mwyn gwerthuso a datblygu sgiliau iaith dysgwyr yn ogystal â'u sgiliau iaith Gymraeg eu hunain yn unol â disgwyliadau gofynion disgrifydd SAC.

Ochr yn ochr â'r profiadau hyn, mae Athrawon Cyswllt yn gallu seilio eu haddysgu a'u dysgu ar dystiolaeth yn ymwneud ag addysgu Cymraeg ac iaith yn effeithiol. Dyluniwyd modiwlau Cymraeg CaBan i gynnwys dysgu am gysyniadau fel caffael iaith, unieithrwydd, dwyieithrwydd, amlieithrwydd, asesiadau iaith, ymddygiad iaith, agweddau ar aml-lythrennedd ac addysgeg ymarferol wrth addysgu iaith, fel trawsieithu, effeithiau ymarfer, a dulliau addysg drochi (gweler e.e. Thomas, Parry ac Apolloni, 2019). Mae cysylltu'r damcaniaethau hyn ag ymarfer da a gweithgareddau mewn ysgolion yn helpu i feithrin 'sgiliau addysgegol hyfforddeion i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2017: 18). Byddant yn datblygu sylfaen wybodaeth y gellir ei throsglwyddo mewn cyd-destunau ieithyddol gwahanol yng Nghymru a thu hwnt, a byddant yn hyddysg mewn dylunio cwricwlwm iaith sy'n briodol i anghenion ieithyddol dysgwyr, waeth beth fo'u cyfrwng cyfarwyddyd.

Fodd bynnag, nid yw meithrin dysgwyr a gweithlu addysg sydd ond yn meddu ar gymwyseddau iaith yn gwarantu eu bod yn siaradwyr sy'n defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol gwahanol. Mae'n hollbwysig darparu profiadau gwerthfawr i alluogi Athrawon Cyswllt,

ymarferwyr a dysgwyr i ymgysylltu â diwylliant Cymru a diwylliant cymunedol cyfoes trwy amrywiaeth o gyfryngau traddodiadol a digidol a digwyddiadau cymdeithasol gwahanol. Mae hyn yn arwain at ennill a chryfhau parch, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gweithredol Athrawon Cyswllt a dysgwyr yn eu gofal o ddiwylliant Cymru yn ei holl briodweddau amlieithog, gan werthfawrogi ei berthnasedd i'w bywydau bob dydd. Dim ond trwy greu cyfleoedd naturiol, arferol i ddefnyddio neu ymarfer siarad Cymraeg y byddwn yn annog dysgwyr ac athrawon i ddewis siarad a defnyddio'r Gymraeg. Dyma un o amcanion allweddol strategaeth y Gymraeg 2050 ac mae'n ganolog i amcanion Fframwaith y Siarter Iaith Gymraeg, sy'n ceisio sicrhau bod y Gymraeg yn gynhwysol ac yn berthnasol 'trwy sefydlu arferion cadarnhaol yn y defnydd o'r iaith, yn ogystal â chreu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg … gan eu helpu nhw [dysgwyr] i ddeall nad yw'r iaith wedi'i chyfyngu i'r ysgol a'i bod yn perthyn i fyd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog' (Llywodraeth Cymru, 2019: 18).

Mae CaBan wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r system mentor iaith arweiniol a rhanddeiliaid eraill i greu gweithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd siarad fel bod Athrawon Cyswllt yn gallu defnyddio Cymraeg bob dydd trwy weithgareddau cyfoethogi y tu allan i'r ysgol a'r coleg. Mae cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo trwy ddulliau fel astudio gwersi, teithiau dysgu, addysgeg iaith benodol ac ymholiad proffesiynol er mwyn meithrin Athrawon Cyswllt adfyfyriol sy'n gwerthfawrogi'r amrywiaeth ieithyddol yn ein hysgolion. Mae CaBan yn cefnogi'r egwyddor fod iaith a diwylliant yn gysylltiedig a bod dysgu iaith yn golygu dysgu agwedd ddiwylliannol a fydd yn cynyddu dealltwriaeth Athrawon Cyswllt o fywyd Cymraeg o safbwynt oedrannau, agweddau, credoau a gwerthoedd gwahanol mewn cymunedau ieithyddol gwahanol. Bydd yr egwyddor hon yn eu paratoi i ddeall a chymryd rhan mewn datblygu diwylliant ac addysg Gymraeg mewn cyd-destun amlieithog a rhyngwladol.

Mae cydweithio rhwng sefydliadau addysg athrawon ac ysgolion partner i greu diwylliant o ymholi, arloesi ac ymchwilio (OECD, 2018: 8) ym maes hyrwyddo a defnyddio iaith yn hanfodol i'r broses o drawsnewid y dull o addysgu Cymraeg i bob dysgwr. Trwy ddatblygu partneriaeth â CIEREI, mentoriaid iaith arweiniol mewn ysgolion arweiniol gan gynnwys rhanddeiliaid yn y consortia rhanbarthol a GwE, gweledigaeth CaBan yw hyrwyddo ymholiad proffesiynol ym maes iaith ymysg Athrawon Cyswllt ac athrawon. Gall addysgwyr fanteisio ar arbenigedd rhyngwladol CaBan

ym meysydd fel dwyieithrwydd, addysg ddwyieithog a datblygiad iaith er mwyn creu ysgolion arweiniol a fydd yn ganolfannau rhagoriaeth ac yn cynorthwyo Athrawon Cyswllt i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Ym mhob cwrs, mae angen meithrin Athrawon Cyswllt adfyfyriol sy'n ymwybodol o'u cynnydd personol eu hunain wrth ddatblygu sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ac sy'n gwerthuso eu profiadau o addysgu Cymraeg/defnyddio Cymraeg bob dydd a hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg gyda'u dysgwyr. Bydd canlyniadau'r fframwaith cymhwysedd iaith ar gyfer Athrawon Cyswllt o bob math yn fodd i ysgolion, consortia rhanbarthol a chynlluniau sabothol deilwra dysgu proffesiynol. O ganlyniad, bydd Athrawon Cyswllt yn gallu nodi eu cymhwysedd iaith ar ddechrau eu gyrfa, gwybod sut i ddatblygu eu sgiliau, a cheisio bod yn esiampl i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned trwy ddangos ymrwymiad cadarnhaol i'r iaith Gymraeg. Dyma'r egwyddorion a fydd yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm ac yn sicrhau bod datblygu gwerthoedd ac ymfalchïo mewn ieithoedd a diwylliannau o bob math yn brofiad naturiol, pleserus a chyffrous i ddysgwyr. Hefyd, mae'n brofiad a fydd yn meithrin ymdeimlad o hunan-barch ymysg dysgwyr o bob math. O ganlyniad, dylai hyn gynyddu nifer siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg yn y gweithlu addysg.

### *Ymchwil, ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ac ymholiad proffesiynol*

Mae *Athrawon Yfory* yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer rhaglen AGA o'r radd flaenaf sy'n dysgu o'r dystiolaeth orau yn rhyngwladol ac yn datblygu'r gallu yn lleol i gyfrannu at greu ymarfer addysgu lleol a chyd-destunol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Un o elfennau mwyaf arloesol CaBan yw'r ffaith ei bod yn cydweithio â'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI). Mae CIEREI yn cynrychioli partneriaeth strategol rhwng GwE, ysgolion rhanbarthol, a rhanddeiliaid eraill sy'n awyddus i wella deilliannau addysgol a llesiant ein plant:

> CIEREI is a collaborative, bilingual, multi-disciplinary institute for the creation of research evidence with the primary aim of positively impacting learning and well-being for learners through schools, and to contribute to teacher education and building regional capacity in co-constructed close-to-practice impact research. (Tyler, *et al.,* 2018: 90).

Mae'r bartneriaeth hon yn un gyffrous ac mae'n ceisio datblygu proffil ymchwil addysg rhyngwladol trwy uno màs critigol o ymchwilwyr prifysgol,



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 225 20/05/2020 10:54

canolfannau ac academyddion ag ymarferwyr addysgol, GwE a 439 o ysgolion yn rhanbarth gogledd Cymru. Amcan cyffredin y bartneriaeth yw datblygu a lledaenu ymchwil a thystiolaeth wrth werthuso ymarfer addysgol, dylunio a gwerthuso ymyraethau addysgol ar raddfa fawr, a gwella deilliannau dysgu a llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

Mae CIEREI yn cynnwys nifer o arbenigeddau ymchwil allweddol sy'n berthnasol i wybodaeth Athrawon Cyswllt ac i ysgolion sydd wedi ymrwymo i ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys dwyieithrwydd mewn addysg, ymyraethau llythrennedd, ADY, rheoli'r ystafell ddosbarth yn effeithiol, effaith tlodi, ymchwil addysgeg, llythrennedd corfforol, gweithgarwch ac iechyd, iechyd meddwl, cyfraith plant a hawliau plant, ac AGA. Mae CIEREI wedi dwyn ynghyd yr arbenigedd eang hwn er mwyn llywio ein cynnwys AGA, helpu i ddatblygu ymchwil effaith ymarferol ledled y rhanbarth, llywio ein rhaglen dysgu proffesiynol rhanbarthol, ac yn anad dim, sicrhau ein hymrwymiad i bwysigrwydd addysgwyr fel defnyddwyr a llunwyr gwaith ymchwil mewn system ysgolion sy'n gwella ei hun ac sy'n seiliedig ar ymchwil.

Yn y cyswllt hwn, rydym yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau uchelgeisiol sy'n coladu ac yn ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n cefnogi cryfder strategol partneriaeth CaBan ac yn helpu i ddatblygu gallu ymchwil addysgol ranbarthol (gweler Tyler *et al.*, 2018, argraffiad cynharach ar gyfer enghraifft o strategaeth ranbarthol i ddatblygu gallu ymchwil yng Nghymru). O safbwynt partneriaeth CaBan, a thaith broffesiynol ein Hathrawon Cyswllt yn benodol, mae CIEREI yn helpu i lywio a sefydlu canfyddiadau a thystiolaeth ymchwil bresennol yn ymwneud â phlant, addysg, dysgu a llesiant yng nghynnwys ein rhaglenni AGA. Wrth reswm, ein hamcan yw cefnogi ein Hathrawon Cyswllt i fod yn ddefnyddwyr a llunwyr ymchwil sy'n deall pwysigrwydd ymchwil a thystiolaeth er mwyn gwella dysgu a llesiant y dysgwyr yn eu dosbarth. Hefyd, rydym yn ceisio datblygu gallu rhanbarthol yn y system er mwyn cynnal a chefnogi ymchwil ac ymholiad proffesiynol mewn ysgolion trwy gefnogi ein Hathrawon Cyswllt pan fyddant yn gweithio yn ysgolion y rhwydwaith ac wrth iddynt ymgymryd â'u prosiectau ymholiad proffesiynol eu hunain.

## *Sylwadau i gloi*

Yn y papur hwn rydym wedi amlinellu athroniaeth a sylfeini ymchwil gweledigaeth CaBan ar gyfer AGA yng ngogledd Cymru. Mae ein



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 226 20/05/2020 10:54

datganiad cenhadaeth – Datblygu Athrawon Yfory Gyda'n Gilydd – yn cwmpasu dull partneriaeth gydweithredol sy'n dwyn ynghyd gryfderau prifysgolion, GwE, sefydliad ymchwil addysg CIEREI, a rhwydwaith o ysgolion rhanbarthol cadarn er mwyn addysgu athrawon gorau yfory ar gyfer ein hysgolion. Credwn fod partneriaeth CaBan yn rhaglen gyda'r gorau yn y byd a fydd yn cyflawni swyddogaeth arweiniol yn y broses o ddiwygio'r system addysg yng Nghymru a'r uchelgais i gyflwyno *Ein Cenhadaeth Genedlaethol* (2017).

Wrth i garfannau cyntaf yr athrawon cyswllt ddechrau dilyn ein rhaglen newydd a chyffrous, rydym eisoes yn rhoi ystyriaeth i werthuso ein llwyddiant. Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni pob un o'n hamcanion? Yn ogystal â defnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol arferol fel deilliannau, ffigurau recriwtio a chadw staff, ac adborth o'r arolwg myfyrwyr cenedlaethol ac ati, bydd CaBan yn cynnal proses adfyfyrio fewnol â'i holl bartneriaid. Mae hyn yn newid methodolegol enfawr ac yn newid diwylliannol gwirioneddol. Defnyddir nifer o ddangosyddion ansoddol sylfaenol, fel brwdfrydedd partneriaid a'u parodrwydd i ymgysylltu, neu wella neu gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a SAU, i gefnogi dysgu proffesiynol gydol gyrfa ar gyfer y proffesiwn cyfan ac arbenigedd ymchwil.

Prif nod CaBan yw cynorthwyo ein Hathrawon Cyswllt newydd i fod yn athrawon creadigol, cyffrous a hynod fedrus a fydd yn helpu i gyflwyno *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae sylfeini athronyddol y bartneriaeth yn cynrychioli ymdeimlad cryf bod gwireddu'r weledigaeth i addysgu athrawon yfory yn 'fusnes i bawb', a bod angen partneriaeth sy'n rhoi lle blaenllaw i ymchwil a thystiolaeth ac sy'n cynnwys ein hysgolion gorau mewn partneriaeth weithredol a chyfartal â phrifysgolion a chonsortia er mwyn cyflawni hyn. Mae ein gweledigaeth yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o'r ffaith fod dysgu proffesiynol effeithiol yn deillio o gyfuniad o elfennau damcaniaethol ac ymarferol, a bod partneriaeth gyfartal rhwng ysgolion a phrifysgolion yn gwbl allweddol i'r broses (BERA/RSA, 2015).

Hefyd, rydym wedi pwysleisio yma rôl hanfodol mentora wrth ddatblygu ein Hathrawon Cyswllt fel ymarferwyr adfyfyriol beirniadol, a'r ffaith fod dyluniad ein rhaglen yn seiliedig ar y cysyniad o ymholiad proffesiynol a dysgu proffesiynol gydol gyrfa. Hefyd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg mewn addysg, a rôl arweinyddiaeth allweddol partneriaeth CaBan yn y broses o ddatblygu gallu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a helpu i



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 227 20/05/2020 10:54

wireddu'r weledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Yn y cyswllt hwn, rydym yn ychwanegu'r sylfaen a'r gallu trwy ein partneriaeth i greu a defnyddio gwybodaeth mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru. Dim ond system sy'n gallu dysgu o'r systemau gorau ar lefel ryngwladol, datblygu tystiolaeth o effaith, a chymhwyso'r dystiolaeth hon mewn cyd-destun lleol, a fydd yn diwallu anghenion plant Cymru ac yn darparu addysg gyda'r gorau yn y byd ar gyfer athrawon yfory.

### *Cydnabyddiaeth*

Rydym yn diolch i'r cydweithwyr canlynol am eu cymorth yn golygu ac yn brawf ddarllen y papur hwn: Owen Davies, Helen Edwards, Nesta Elliot, Gwyn Ellis, Carl Hughes, Rowena Hughes-Jones, Modlen Lynch, Huw Philips, Delyth Roberts, Helen Branwen Roberts, Fatema Sultana, Enlli Thomas.

### *Cyfeiriadau*

Biglan, A., Flay, B. R., Embry, D. D., a Sandler, I. N. (2012). 'The critical role of nurturing environments for promoting human well-being'. *American Psychologist*, 67 (4), 257.

Biglan, A. (2015). *The nurture effect: How the science of human behavior can improve our lives and our world*. New Harbinger Publications.

British Education Research Association / The Royal Society for the Encouragement of the Arts, Manufacturing and Commerce (BERA/RSA) (2014). *Research and the teaching profession: building the capacity for a self- improving education system*. (2014). Gw. https://www.bera.ac.uk /wp- content/uploads/2013/12/BERA-RSA-Research-Teaching-Profession-FULL-REPORT-for-web.pdf (cyrchwyd 26 Medi 2019).

Berliner, D. (2004). 'Describing the behavior and documenting the accomplishments of expert teachers'. *Bulletin Of Science, Technology & Society*, 24 (3), 200–12.

Burn, K., Hagger, H., Mutton, T. ac Everton, T. (2000). 'Beyond Concerns with Self: The sophisticated thinking of beginning student teachers'. *Journal of Education for Teaching*, 26 (3), 259–78.

Burn, K. a Mutton, T. (2015). 'A review of ' research-informed clinical practice' in initial teacher education'. *Oxford Review of Education*, 41 (2), 217–33.

CaBan. (2019). *Llawlyfr Mentoro*. Gw. https://caban.ac.uk/dogfennau-documents/H1%20Llawlyfr%20Mentora.pdf (cyrchwyd 26 Medi 2019).

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. a Pedder, D. (2013). 'Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education?' *Cambridge Journal Of Education*, 43, 537–54.

Campbell, A. a Groundwater-Smith, S. (gol.) (2010). *Connecting inquiry and professional learning in education: International perspectives and practical solutions*. London: Routledge.

City, E. A., Elmore, R., Fiarman, S. a Teitel, L. (2009). *Instructional rounds in education: a network approach to improving teaching and learning.* Cambridge, Mass: Harvard Education Press.

Clarke, D. a Hollingsworth, H. (2002). 'Elaborating a model of teacher professional growth'. *Teaching and Teacher Education*, 18 (8), 947–67.

Claxton, G. (2008). 'Wisdom: advanced creativity?' Yn Craft, A., Gardner, H. a Claxton, G. (2008). (gol.). *Creativity, Wisdom and Trusteeship*, California: Corwin Press, 35–48.

Cochran-Smith a Lytle (2009) *Inquiry as Stance: Practitioner Research for the Next Generation*. Teachers College Press. New York.

Coe, R., Aloisi, C., Higgins, S. a Major, L. E. (2014). *What makes great teaching? Review of the underpinning research.* London: Sutton Trust.

Cordingley, P. (2015). 'The contribution of research to teachers' professional learning and development'. *Oxford Review of Education*, 41 (2), 234–52.

Costello, P. J. M. (2011). *Effective action research developing reflective thinking and practice,* (ail argraffiad*).* London: Continuum International Publishing.

Cyngor y Gweithlu Addysg. (2019). *Darparwyr achrededig Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru*. Gw. https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-aga/darparwyr-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru-o-2019.html (cyrchwyd 26 Medi 2019).

Darling-Hammond, L. (2017). 'Teacher Education around the world: what can we learn from international practice?', *European Journal of Teacher Education*, 40 (3), 291–309.

Denscombe, M. (2014). *The good research guide for small-scale social research projects* (5ed argraffiad). Maidenhead: Open University Press – MacGraw Hill.

Donaldson, G. (2018). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Estyn (2013). *Adroddiad ar Ganolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De Ddwyrain Cymru.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2012). *Adroddiad ar Ganolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru*. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2015). *Adroddiad ar Ganolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru*. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2019). *Arweiniad atodol: arolygu ysgolion sy'n ysgolion arweiniol mewn partneriaeth addysg gychwynnol i athrawon*. Caerdydd: Estyn.

Furlong, J. (2015). *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*, Oxford: Unversity of Oxford.

Gore, M. a Bowe, J. (2015). 'Interrupting attrition? Re-shaping the transition from perspective to inservice teaching through quality teaching rounds'. *International Journal Of Educational Research*, 73, 77–88.

Hargreaves, A. a Fullan, M. (2012). *Professional capital*. London: Routledge.

Hobson, A., Malderez, A., Tracey, L., Giannakaki, M., Pell, G. a Tomlinson, P. (2008). 'Student teachers' experiences of initial teacher preparation in England: core themes and variation'. *Research Papers in Education*, 23 (4), 407–43.

Hopkins, D. (2014). *A teacher's guide to classroom research* (5ed argraffiad). Maidenhead: Open University Press.

Hulse, B. a Hulme, R. (2012). 'Engaging with research through practitioner enquiry: the perceptions of beginning teachers on a postgraduate initial teacher education programme'. *Education Action Research*, 20 (2), 213–329.

Jones, L., Tones, S. a Foulkes, G. (2018). 'Mentoring associate teachers in initial teacher education: the value of dialogue feedback'. *International Journal Of Mentoring And Coaching In Education*, 7 (2), 127–38.

Kools, M., (2018). *Developing schools as learning organisations*, Paris: Organisation for Economic Cooperation and Development.

Kubler-Ross, E., (1977). *On Death and Dying.* New York: Macmillan

Lewis, C. (2000). 'Lesson study: The core of Japanese professional development'. Yn *Annual Meeting of the American Educational Research Association*. New Orleans, LA.

Livingston, K. a Shiach, L. (2010). 'Co-constructing a new model of teacher education' yn Campbell, A. a Groundwater-Smith, S. (gol.), *Connecting inquiry and professional learning in education*, Oxon: Routledge, 83–95.

Llywodraeth Cymru (2010). *Strategaeth ar gyfer Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017). *Cysylltu ymchwil ac addysg athrawon: gwella ansawdd ar gyfer partneriaethau AGA*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018). *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018). *Dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019). *Safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019). *Y Fframwaith Siarter Iaith*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

McNiff, J. a Whitehead, J. (2009). *Doing and writing action research*. London: SAGE.

Merriam, S. B. a Bierema, L. L. (2014). *Adult learning: linking theory and practice.* San Francsisco: Jossey-Bass.




10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 230 20/05/2020 10:54

Mockler, N. (2011). Beyond 'what works': understanding teacher identity as a practical and political tool. *Teachers And Teaching*, 17 (5), 517–28.

Muijs, D., Reynolds, D., Sammons, P., Kyriakides, L., Creemers, B. a Teddlie, C. (2018). 'Assessing individual lessons using a generic teacher observation instrument: how useful is the International System for Teacher Observation and Feedback (ISTOF)', *ZDM*, 50 (3), 395–406.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2018). *Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yng Nghymru: Llawlyfr prif bwyntiau Cymru*, Paris: OECD.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2010). *PISA 2009 results: executive summary*, Paris: OECD.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2014). *Improving schools in Wales*, Paris: OECD.

Ponte, P. (2010). 'Post Graduate programmes as platforms: coming together and doing research for a common moral purpose'. Yn: A. Campbell ac S. Groundwater-Smith, (2010) (gol.). *Connecting inquiry and professional learning in education: International perspectives and practical solutions.* London: Routledge, 68–82.

Raffo, C. a Hall, D. (2006). 'Transitions to becoming a teacher on an initial teacher education and training programme'. *British Journal Of Sociology Of Education*, 27 (1), 53–66.

Salim, S. K. (2017). 'Teaching language and teaching culture'. Yn *8th International Visible Conference on Educational Studies and Applied Linguistics.* Salahaddin University, Erbil, Irac.

Shulman, L. S. a Wilson, S. M. (2005). *The wisdom of practice: essays on teaching, learning, and learning to teach.* San Francisco: Jossey-Bass.

Tabberer, R. (2013). *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Thomas, E. M., Williams, N., Jones, Ll. A., Davies, S. a Binks, H. (2013). 'Acquiring complex structures under minority language conditions: Bilingual acquisition of plural morphology in Welsh'. *Bilingualism: Language And Cognition*, 17 (3), 478–94.

Turner, F. a Rowland, T. (2011). *The Knowledge Quartet as an Organising Framework for Developing and Deepening Teachers' Mathematics Knowledge.* Yn: T. Rowland a K. Ruthven (gol.) *Mathematical Knowledge in Teaching, Mathematics Education Library.* Dordrecht: Springer Netherlands, 195–212.

Tyler, E., Watkins, R., Roberts, S., Hoerger, M., Hastings, R. P., Hulson-Jones A., a Hughes, J. C. (2018). 'Y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith: Astudiaeth Achos mewn datblygu gallu ymchwil rhanbarthol yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru.* ??pp n umbers??

Whitty, G. a Furlong, J. (gol.) (2017). *Knowledge and study of education: an international exploration.* Oxford: Symposia Books.



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 231 20/05/2020 10:54

## *Nodyn*

1 Mae termau cysylltiedig eraill yn cynnwys ymchwil weithredu, ymchwil ymarfer, dysgu proffesiynol seiliedig ar ymholiad, ymholiad ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth, cynrychioli modelau amrywiol o ymholiad ac ymchwil dan arweiniad athrawon. Fodd bynnag, mae'r term Ymholiad Proffesiynol sy'n cael ei ddisgrifio yma yn fwy disgrifiadol o'r broses arferol y mae ymarferwyr yn ymgymryd â hi, sy'n cynnwys y termau uchod, ac fe'i defnyddir yn yr erthygl hon i ddisgrifio athrawon fel 'ysgolheigion addysgeg'.



10 Griffiths WJE 22/1 (Welsh).indd 232 20/05/2020 10:54